Arts
& Business
Cymru

# Briff ar gyfer Ymgynghorydd Gwerthuso Allanol: *Treftadaeth Ymlaen*

| | |
|---|---|
| Gwerth y contract: | **hyd at £10,000** |
| Hyd y contract: | **hyd at 20 mis** |
| Enw'r cyswllt: | **Rachel Jones, Prif Weithredwr** |
| Dyddiad cau ar gyfer cynigion: | **Dydd Llun 1 Rhagfyr 2025 am 12.00 pm** |

## 1. Cyflwyniad

Mae Celfyddydau a Busnes Cymru yn chwilio am ymgynghorydd profiadol i ddylunio a chyflwyno gwerthusiad cynhwysfawr o *Treftadaeth Ymlaen*, rhaglen I feithrin gallu newydd ar gyfer sefydliadau treftadaeth bach a chanolig ledled Cymru. Cefnogir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## 2. Ynglŷn â C&B Cymru

Yn sefydliad aelodaeth ac elusen, rôl C&B Cymru yw hyrwyddo, galluogi, datblygu a chynnal partneriaethau buddiol i'r ddwy ochr rhwng busnes a'r celfyddydau. Gwerth craidd C&B Cymru yw ei allu datblygedig iawn i ddeall beth sydd ei angen ar sefydliad a'i gyflawni. Mae'r gwaith hwn yn helpu busnes a'r celfyddydau i ddod yn gryfach trwy gydweithio.

Mae'r tîm staff bach a medrus yn gweithio er budd Cymru yn unig – ei sector creadigol, ei heconomi fusnes a chymunedau ledled y wlad.

## 3. Trosolwg o'r Prosiect

Mae C&B Cymru yn helpu i greu sector treftadaeth fwy gwydn, hyderus a chynaliadwy yng Nghymru. Ei weledigaeth yw i sefydliadau treftadaeth o bob maint gael mynediad at y sgiliau, y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn amseroedd heriol.

Ar ôl sefydlu ei Raglen Datblygiad Proffesiynol ym 1999, mae'r tîm wedi bod yn llwyddiannus yn dylunio a chyflwyno rhaglenni meithrin gallu ar gyfer sector y celfyddydau yng Nghymru ers 26 mlynedd, gan gefnogi cannoedd o sefydliadau ac ymarferwyr creadigol. Mae'r rhaglenni hyn wedi cyfuno ymgynghoriaeth un-i-un, hyfforddiant, mentora a dysgu gan gymheiriaid, gan arwain at well cynllunio busnes, mwy o incwm, arweinyddiaeth gryfach a mwy o hyder ymhlith cyfranogwyr. Bydd *Treftadaeth Ymlaen* yn addasu ac yn graddio'r model blaenorol hwn i ddiwallu anghenion penodol y sector treftadaeth. Bydd y cynnwys a'r cyflwyniad yn cael eu llywio gan ymgynghoriad parhaus.

Bydd y prosiect hwn yn cynnig cymorth pwrpasol i sefydliadau treftadaeth ledled Cymru, gan eu helpu i gryfhau eu harweinyddiaeth, llywodraethiant, cynllunio ariannol, codi arian a gweithrediadau o ddydd i ddydd. Bydd wedi'i wreiddio mewn cydweithrediad, gyda chefnogaeth un-i-un wedi'i deilwra, hyfforddiant a chyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir a chysylltiad cymheiriaid.

Mae C&B Cymru eisiau i sefydliadau treftadaeth Cymru gael eu paratoi'n well i warchod a rhannu'r dreftadaeth sy'n bwysig i'w cymunedau - nid yn unig goroesi ond llwyddo. Gwaddol y prosiect hwn fydd newid parhaol: arweinwyr grymus, sefydliadau mwy sefydlog a threftadaeth sy'n parhau i gael ei warchod a'i fwynhau am genedlaethau i ddod.

Arts & Business Cymru

## 4. Pwrpas y Gwerthusiad

Hoffem benodi Ymgynghorydd Gwerthuso i weithio gyda C&B Cymru ar y prosiect uchelgeisiol a chyffrous hwn rhwng Chwefror 2026 a Medi 2027. Pwrpas y gwerthusiad yw:

- Asesu effeithiolrwydd ac effaith y rhaglen *Treftadaeth Ymlaen* ar sefydliadau sy'n cymryd rhan.
- Nodi cryfderau, meysydd i'w gwella a'r gwersi a ddysgwyd.
- Dangos gwerth am arian ac yn cydfynd ag egwyddorion buddsoddi'r Gronfa Dreftadaeth.
- Darparu tystiolaeth ac argymhellion cadarn i lywio ceisiadau datblygu rhaglenni a chyllid yn y dyfodol.
- Dal arfer da a chreu dysgu defnyddiol, y gellir ei rannu ar gyfer y sector ehangach.

## 5. Cwmpas y Gwerthusiad

Bydd disgwyl i'r gwerthuswr:

- Dylunio cynllun gwerthuso mewn ymgynghoriad â thîm y prosiect.
- Datblygu offer casglu data (e.e. arolygon, canllawiau cyfweliad/grwpiau ffocws).
- Gweithio gyda'r Rheolwr Prosiect i gasglu data gwaelodlin, canolbwynt a diwedd.
- Cynnal dadansoddiad ansoddol a meintiol.
- Asesu canlyniadau'r prosiect, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

✓ Hyder a gwytnwch sefydliadol.
✓ Llywodraethiant a gallu arweinyddiaeth.
✓ Mynediad at, a gweithredu cymorth busnes.
✓ Cyfranogiad mewn rhwydweithiau cymheiriaid a dysgu cydweithredol.
✓ Boddhad cyffredinol a gwerth canfyddedig gan gyfranogwyr.

- Mynychu digwyddiadau allweddol (ar-lein neu'n bersonol lle bo hynny'n briodol) i arsylwi ac ymgysylltu â chyfranogwyr.
- Cynhyrchu adroddiad terfynol, crynodeb o'r adroddiad a dogfen astudiaeth achos sy'n addas ar gyfer cyllidwyr ac I'w lledaenu'n enangach.

## 6. Methodoleg

Rydym yn agored i gynigion ar y fethodoleg fwyaf priodol, ond disgwylir iddo gynnwys:

- Arolygon gwaelodlin a dilynol.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda sampl o sefydliadau sy'n cymryd rhan.
- Ymgynghori â phartneriaid cyflenwi a gwirfoddolwyr (Rhaglenni Datblygiad Proffesiynol).
- Adborth gan y Rheolwr Prosiect a'r tîm cyflawni.
- Arsylwi ac adborth anffurfiol o ddigwyddiadau dysgu gan gymheiriaid.
- Datblygu astudiaethau achos.

## 7. Canlyniadau

Bydd dyddiadau cyflwyno terfynol yn cael eu cytuno wrth benodi ond maent yn debygol o fod yn:

- Cynllun fframwaith gwerthuso (erbyn mis 3).
- Adroddiad gwerthuso canol tymor (mis 10).
- Cyflwyno canfyddiadau i'r Bwrdd / Pwyllgor Llywio a rhanddeiliaid allweddol (mis 10)
- Adroddiad gwerthuso terfynol a dogfen astudiaeth achos (mis 18).
- Cyflwyno'r canfyddiadau i'r Bwrdd / Pwyllgor Llywio a rhanddeiliaid allweddol (mis 18).
- Adroddiad gwerthuso cryno dwyieithog o'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol ar gyfer rhannu gyda'r cyhoedd – cyfiethiad I'r Gymraeg I'w ddarparu gan C&B Cymru (mis 20)

Arts & Business Cymru

## 8. Amserlen

- Dechrau'r prosiect: Ionawr 2026
- Cynllun gwerthuso wedi'i gwblhau erbyn Mis 3 y prosiect
- Adroddiadau interim: Mis 10
- Adroddiad terfynol: erbyn Mis 20

## 9. Cyllideb

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer gwerthuso yw hyd at £10,000 (gan gynnwys TAW a threuliau). Dylai hyn gwmpasu holl amser gwerthuswr, presenoldeb mewn digwyddiadau allweddol, dadansoddi ac adrodd.

## 10. Sgiliau a phrofiad sydd eu hangen

Dylai'r gwerthuswr ddangos:

- Profiad blaenorol o werthuso rhaglenni a ariennir gan grant
- Gwybodaeth am y sector treftadaeth a/neu ddielw, yn ddelfrydol yng Nghymru
- Profiad o ddulliau gwerthuso cyfranogol a datblygiadol
- Sgiliau cyfathrebu ac adrodd rhagorol
- Y gallu i weithio ar y cyd ac yn annibynnol i ddyddiadau cau y cytunwyd arnynt

## 11. Sut i wneud cais

Anfonwch:

- Cynnig byr yn amlinellu eich dull (uchafswm o 3 tudalen)
- CVs y gwerthuswr(ion)
- Dwy enghraifft o waith gwerthuso perthnasol
- Dadansoddiad o'r gyllideb a statws TAW
- Dau eirda ar gyfer gwaith o natur debyg.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Llun 1 Rhagfyr 2025 am 12.00 pm**

**Cyfweliadau (os yw'n berthnasol): Wythnos yn dechrau 15 Rhagfyr 2025**

**Anfonwch eich cynnig at: Rachel Jones, Prif Weithredwr, C&B Cymru**
**rachel.jones@aandbcymru.org.uk**

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund